O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 65

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026

Gwnaed	*4 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*16 Mawrth 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 65

The Infrastructure Consent (Compensation for Changing or Revoking Infrastructure Consent Orders) (Wales) Regulations 2026

Made	*4 March 2026*
Coming into force	*16 March 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 65

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses yn gymwys i'r prosiectau seilwaith arwyddocaol a bennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Yn fras, prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yw'r rhain.

Mae Rhan 6 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion cydsyniad seilwaith (gorchmynion sy'n rhoi cydsyniad seilwaith) gan gynnwys darpariaeth sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith (adran 90 o Ddeddf 2024).

Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch digolledu pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael ei newid neu ei ddirymu gan Weinidogion Cymru heb i gais gael ei wneud. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y modd y mae rhaid gwneud hawliad am ddigollediad, a'r cyfnod y mae rhaid gwneud cais am ddigollediad o'i fewn, o dan yr Atodlen honno. Maent hefyd yn pennu isafswm y digollediad am ddibrisiant o dan baragraff 2 o Atodlen 2.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 65

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026

Gwnaed	*4 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*16 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraffau 1(3) a 2(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024(**1**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 141(3) o'r Ddeddf honno(**2**) gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Digolledu am Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 16 Mawrth 2026.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2024" yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024.

Hawliad am ddigolledi ad

2.—(1) Mewn perthynas â hawliad am ddigolledi ad o dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 (newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith: digolledu)—

(a) rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(i) enw a chyfeiriad yr hawlydd;

(ii) enw a chyfeiriad asiant, os penodwyd un;

(iii) datganiad ynghylch yr hyn a ganlyn—

(aa) a yw'r hawlydd yn berson a chanddo fuddiant yn y tir y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef,

(bb) a yw'r hawlydd yn berson a chanddo fuddiant mewn mwynau ar y tir hwnnw, neu

(**1**) 2024 dsc 3.
(**2**) Gweler hefyd adran 37G o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

(cc) a yw'r hawlydd yn berson y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd;

(iv) cyfeirnod y gorchymyn cydsyniad seilwaith y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef;

(v) manylion y gwariant, y golled neu'r difrod sy'n destun yr hawliad, a

(b) rhaid i dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r hawliad fynd gyda'r hawliad.

(2) Pan wneir hawliad ar ffurf electronig caiff Gweinidogion Cymru ofyn i'r hawlydd adneuo un copi caled o'r hawliad ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol ategol gyda hwy.

(3) Rhaid gwneud hawliad am ddigolledi o fewn 6 mis gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r gorchymyn sy'n newid neu'n dirymu'r gorchymyn cydsyniad seilwaith y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef o dan adran 92(2) o Ddeddf 2024.

(4) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "hawlydd" yw person sy'n gwneud hawliad am ddigolledi o dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2024;

(b) ystyr "cydsyniad seilwaith" yw'r cydsyniad sy'n ofynnol gan adran 19 o Ddeddf 2024;

(c) ystyr "gorchymyn cydsyniad seilwaith" yw gorchymyn a wneir o dan Ddeddf 2024 sy'n rhoi cydsyniad seilwaith.

Digolledu am ddibrisiant: isafswm

3. Yr isafswm a bennir o dan baragraff 2(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 (isafswm y digolledi am ddibrisiant) yw £20.

Rebecca Evans
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
4 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 65

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Compensation for Changing or Revoking Infrastructure Consent Orders) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Infrastructure (Wales) Act 2024 ("the 2024 Act") establishes a unified application and consenting process to enable making and consideration of applications for infrastructure consent. The process applies to the significant infrastructure projects that are specified in Part 1 of the 2024 Act. Broadly, they are energy, transport, waste and water projects.

Part 6 of the 2024 Act makes provision about infrastructure consent orders (orders granting infrastructure consent) including provision giving the Welsh Ministers power, by order, to change or revoke an infrastructure consent order (section 90 of the 2024 Act).

Schedule 2 to the 2024 Act makes provision about compensation where an infrastructure consent order is changed or revoked by the Welsh Ministers without an application being made. These Regulations make provision about the way in which, and the period within which, a claim for compensation under that Schedule must be made. They also specify the minimum amount of compensation for depreciation under paragraph 2 of Schedule 2.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on the Welsh Government website at www.gov.wales.

2026 No. 65

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Compensation for Changing or Revoking Infrastructure Consent Orders) (Wales) Regulations 2026

Made	*4 March 2026*
Coming into force	*16 March 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon them by paragraphs 1(3) and 2(1) of Schedule 2 to the Infrastructure (Wales) Act 2024(**1**).

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 141(3) of that Act (**2**) a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Infrastructure Consent (Compensation for Changing or Revoking Infrastructure Consent Orders) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 16 March 2026.

(3) In these Regulations, "the 2024 Act" means the Infrastructure (Wales) Act 2024.

Claim for compensation

2.—(1) A claim for compensation under paragraph 1 of Schedule 2 to the 2024 Act (changing or revoking an infrastructure consent order: compensation) must—

(a) contain the following information—

(i) the name and address of the claimant;

(ii) the name and address of an agent, if appointed;

(iii) a statement as to whether the claimant—

(aa) is a person interested in the land to which the infrastructure consent order relates,

(bb) is a person interested in minerals on such land, or

(**1**) 2024 asc 3.
(**2**) See also section 37G of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4) for provision about the procedure that applies to this instrument.

(cc) is a person for whose benefit the infrastructure consent order has effect;

(iv) the reference number of the infrastructure consent order to which the claim relates;

(v) details of the expenditure, loss or damage which is the subject of the claim, and

(b) be accompanied by documentary evidence to support the claim.

(2) Where a claim is made electronically the Welsh Ministers may request that the claimant deposits one hard copy of the claim and any supporting documentary evidence with them.

(3) A claim for compensation must be made within 6 months beginning with the day after the day the Welsh Ministers publish the order changing or revoking the infrastructure consent order to which the claim relates under section 92(2) of the 2024 Act.

(4) In this regulation—

(a) "claimant" means a person who makes a claim for compensation under paragraph 1 of Schedule 2 to the 2024 Act;

(b) "infrastructure consent" means the consent required by section 19 of the 2024 Act;

(c) "infrastructure consent order" means an order made under the 2024 Act granting infrastructure consent.

Compensation for depreciation: minimum amount

3. The minimum amount specified under paragraph 2(1) of Schedule 2 to the 2024 Act (minimum amount of compensation for depreciation) is £20.

Rebecca Evans
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning, one of the Welsh Ministers
4 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839836-6

9 780348 398366